# NATION RADIO (De Cymru)

## Cais am newid Fformat

Ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 18 Tachwedd 2009 |
| Dyddiad Cau ar gyfer Ymatebion: | 30 Rhagfyr 2009 |

# Cynnwys


| Adran | | Tud |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb | 2 |
| 2 | Cefndir | 4 |

| Atodiad | | Tud |
|---|---|---|
| 1 | Ymateb i’r ymgynghoriad hwn | 5 |
| 2 | Egwyddorion ymgynghori Ofcom | 7 |
| 3 | Dalen cyflwyno ymateb i’r ymgynghoriad | 8 |
| 4 | Cwestiwn yr ymgynghoriad | 10 |
| 5 | Cais Town and Country i newid Fformat Nation Radio | 11 |
| 6 | FFORMAT GORSAF RADIO MASNACHOL | 18 |
| 7 | Gorsafoedd radio masnachol a chymunedol sydd ar waith yn Ne Cymru | 19 |

## Adran 1

# Crynodeb

1.1 Cafodd Ofcom gais gan Town and Country Broadcasting i newid Fformat Nation Radio yn Ne Cymru (Xfm gynt).

1.2 Ar hyn o bryd mae'r orsaf yn orsaf roc gwahanol ar gyfer De Cymru sy'n canolbwyntio ar roc modern a roc clasurol gyda sesiynau wythnosol ar gyfer artistiaid lleol.

1.3 Mae Town and Country am ei newid i fod yn orsaf "cerddoriaeth newydd" a fydd yn chwarae roc modern yn bennaf ynghyd â “mathau eraill o gerddoriaeth sy’n apelio” at bobl rhwng 15 a 34 oed ac a fyddai’n "cynnwys rhoi sylw i artistiaid lleol".

**Fformat Presennol**

**GORSAF ROC GWAHANOL AR GYFER DE CYMRU SY’N CHWARAE ROC MODERN A ROC CLASUROL, GYDA SESIYNAU WYTHNOSOL SY’N RHOI SYLW I ARTISTIAID LLEOL**

**Fformat a Gynigir**

GORSAF CERDDORIAETH NEWYDD AR GYFER DE CYMRU, YN CHWARAE ROC MODERN YN BENNAF, OND SYDD HEFYD YN CYNNWYS MATHAU ERAILL O GERDDORIAETH SY'N APELIO AT GYNULLEIDFA DARGED YR ORSAF, SEF POBL RHWNG 15 A 34 OED. **BYDD YR ALLBWN YN HANU O DDE CYMRU A BYDD YN CYNNWYS RHOI SYLW I ARTISTIAID LLEOL.**

1.4 Mae Ofcom wedi cyhoeddi canllawiau ynglŷn â sut yr ystyrir cais am newid Fformat. Mae meini prawf statudol y mae'n rhaid i ni eu hystyried (gweler paragraff 1.6 isod), ac os ydym yn fodlon yng nghyswllt un o'r meini prawf hyn, yna rydym yn ystyried materion eraill wrth benderfynu a ydym am gytuno i gais am newid. Ceir manylion llawn am y broses hon ar ein gwefan, sef . http://www.ofcom.org.uk/radio/ifi/rbl/formats/formats/fc/changeregs/.

1.5 Os bydd gorsaf am wneud newidiadau a fydd yn newid natur ei wasanaeth yn sylweddol, mae Ofcom yn ymgynghori â’r cyhoedd cyn gwneud penderfyniad. Yn yr achos hwn, rydym o’r farn y gallai’r cais, pe baem yn ei ganiatáu, newid natur gwasanaeth yr orsaf.

1.6 Rhaid i Ofcom ystyried cais Town and Country i newid Fformat Nation Radio yn erbyn y meini prawf statudol a nodir yn y ddeddfwriaeth isod, ac mae cwestiwn yr ymgynghoriad yn Atodiad 4 yn adlewyrchu hyn.

> Gall Ofcom gydsynio i newidiadau o’r fath dan amodau sydd wedi’u cynnwys yn y drwydded Radio Gwlad, yn unol ag Adran 106 (1A) Deddf Darlledu 1990 os yw’n fodlon bod o leiaf un o’r meini prawf canlynol wedi’i fodloni:
>
> (a) Ni fydd y newid yn newid natur y gwasanaeth yn sylweddol
>
> (b) Ni fydd y newid yn cyfyngu ar yr amrywiaeth o raglenni a fydd ar gael yn yr ardal o ran gwasanaethau radio annibynnol perthnasol

(c) Bydd y newid yn ffafriol i gynnal neu i hyrwyddo cystadleuaeth deg ac effeithiol neu

(ch) Mae tystiolaeth bod galw sylweddol ymysg y bobl sy'n byw yn yr ardal a effeithir am y newid, neu fod cefnogaeth sylweddol i'r newid hwnnw.

1.7 Yn yr achos hwn, mae'r mater yn troi o amgylch newid arfaethedig o "orsaf roc gwahanol ....sy'n chwarae roc modern a roc clasurol" i "roc modern yn bennaf, gyda mathau eraill o gerddoriaeth sy'n apelio at gynulleidfa darged yr orsaf, sef pobl rhwng 15 a 34 oed."

1.8 Yn ail, byddai gofyniad y Fformat am sesiynau wythnosol gydag artistiaid lleol yn newid i ymrwymiad i "roi sylw" i artistiaid lleol.

1.9 Gan fod Ofcom yn credu y byddai'r newid yn newid sylweddol, ni fodlonwyd maen prawf (a) uchod, ac felly ni ellir ond rhoi sêl bendith i'r newidiadau os bodlonir un o'r meini prawf (b) i (ch). Dan amgylchiadau o'r fath, rhaid i Ofcom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

1.10 Yn benodol wrth ystyried a fodlonwyd maen prawf (b) (*ni fydd y newid yn cyfyngu ar yr amrywiaeth o raglenni a fydd ar gael yn yr ardal o ran gwasanaethau radio annibynnol perthnasol);* nid yw gwasanaethau DAB lleol na gwasanaethau'r BBC yn 'cyfrif' fel gwasanaethau radio annibynnol perthnasol. Y gwasanaethau radio annibynnol perthnasol yw'r gorsafoedd analog masnachol a chymunedol lleol hynny sydd ar waith yn y rhanbarth, ac a restrir yn Atodiad 7

1.11 Felly, mae Ofcom yn gofyn am sylwadau ar y ceisiadau, gan roi ystyriaeth benodol i Adran 106 (1A) (b) (c) a/neu (ch)

1.12 Mae Atodiad 5 yn cynnwys y cais am newid Fformat ac ynddo dadleuir y byddai'r allbwn yn parhau i fod yn unigryw yn y farchnad yn Ne Cymru. Mae Town and Country yn dadlau y bodlonir meini prawf (a) a (b) i bob pwrpas, gan ddweud na fyddai'r newid yn sylweddol, ond y byddai'n caniatáu'r hyblygrwydd a fyddai'n galluogi'r orsaf i gystadlu'n fwy effeithiol â Radio 1 y BBC. Fel y nodwyd uchod, nid ydym o'r farn y bodlonir maen prawf (a), a dyna pam rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn.

1.13 Yng nghyswllt cynnwys artistiaid lleol, mae Town and Country yn dweud fod llawer o allbwn yr orsaf wedi'i neilltuo i fandiau lleol ac y bydd hyn yn parhau.

## Adran 2

# Cefndir

2.1 Dyfarnwyd trwydded De Cymru ym mis Mai 2007 i GCap Media, a oedd wedi gwneud cais ar ffurf fformat roc gwahanol dan frand Xfm. Gwerthwyd y drwydded i Town and Country Broadcasting ym mis Mai 2008.

2.2 Roedd wyth ymgeisydd wedi cystadlu am drwydded De Cymru. Yn ogystal â Xfm, yr ymgeiswyr oedd:

- allTalk FM (Wales) – Fformat ‘sgwrsio’
- Dave FM – Cerddoriaeth roc clasurol a roc cyfoes
- Kerrang! - Cerddoriaeth roc modern a roc clasurol
- Original FM – Cerddoriaeth wahanol ar gyfer oedolion
- South Wales Radio – Gorsaf sgwrsio'n bennaf ar gyfer pobl dros 50
- Variety FM – Cerddoriaeth hawdd gwrando arni ar gyfer pobl dros 50
- Wicked FM – Gorsaf yn cynnig gwasanaeth cerddoriaeth roc llawn

Yn y datganiad yn nodi ei resymau dros y dyfarniad, cyfeiriodd Ofcom yn benodol at y gwaith ymchwil "cynhwysfawr" a wnaeth yr ymgeisydd yn dangos mai’r bwlch yn y farchnad oedd gwasanaeth ar gyfer pobl rhwng 15 a 34 oed. Nododd hefyd fod Radio 1 yn denu cynulleidfa fwy yn Ne Cymru nag yr oedd yn y DU fel cyfangorff.

### Atodiad 1

# Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut i ymateb

A1.1 Mae Ofcom yn eich gwahodd i gyflwyno barn a sylwadau ysgrifenedig ynghylch y materion a godir yn y ddogfen hon **erbyn 5pm ar Ragfyr 30 2009**.

A1.2 Mae'n well o lawer gan Ofcom gael ymatebion drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we yn http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/nationradio/howtorespond/form, gan fod hyn yn ein helpu i brosesu'r ymatebion yn gyflym ac yn effeithlon. Byddem yn ddiolchgar hefyd pe gallech ein helpu drwy gwblhau dalen cyflwyno ymateb (gweler Atodiad 3), i ddangos a oes unrhyw faterion i'w hystyried ai peidio o ran cyfrinachedd. Mae'r ddalen cyflwyno ymateb hon wedi'i chynnwys yn holiadur y ffurflen ar-lein ar y we.

A1.3 Yng nghyswllt ymatebion mwy i'r ymgynghoriad – yn enwedig rhai sy'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall ategol – anfonwch hwynt drwy'r e-bost at: martin.campbell@ofcom.org.uk, gan atodi eich ymateb mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad.

Gallwch hefyd anfon eich ymatebion drwy'r post neu drwy ffacs i'r cyfeiriad isod:

Ymgynghoriad Nation Radio
AT SYLW Martin Campbell,
Prif Gynghorydd, Radio, Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

Ffacs: 020 7981 3850

A1.4 Sylwch nad oes arnom angen copi caled yn ogystal â fersiwn electronig. Bydd Ofcom yn cydnabod derbyn ymatebion os cyflwynir hwynt drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A1.5 Byddai o gymorth pe bai eich ymateb yn cynnwys ateb uniongyrchol i'r cwestiwn a ofynnir yn y ddogfen hon, sydd wedi'i nodi yn Atodiad 4. Byddai hefyd o gymorth pe gallech egluro'r rhesymau dros eich barn a sut y byddai'r cynigion yn effeithio arnoch chi.

## Rhagor o wybodaeth

A1.6 Os hoffech drafod y materion a'r cwestiynau a godir yn yr ymgynghoriad hwn, neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch y dull priodol o ymateb, cysylltwch â Jon Heasman ar 020 7783 4509.

## Cyfrinachedd

A1.7 Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod pawb sy'n ymddiddori mewn mater sydd dan sylw'n cael gweld y farn a fynegwyd gan ymatebwyr i ymgynghoriadau. Felly, byddwn fel arfer yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar ein gwefan, sef www.ofcom.org.uk, cyn gynted ag y byddwn yn eu derbyn, os oes modd. Os ydych yn credu y dylid

cadw’ch ymateb yn gyfrinachol, byddwch cystal â nodi pa ran o’ch ymateb y dylid ei chadw’n gyfrinachol, neu a ddylid cadw’r cwbl ohono’n gyfrinachol, a nodi pam. Byddwch cystal â rhoi rhannau o’r fath mewn atodiad ar wahân hefyd.

A1.8 Os bydd rhywun yn gofyn inni gadw rhan neu’r cwbl o ymateb yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen inni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi’u marcio’n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.9 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi’i rhoi dan drwydded i Ofcom i’w defnyddio. Mae eglurhad pellach o safbwynt Ofcom ar hawliau eiddo deallusol ar ei wefan yn http://www.ofcom.org.uk/about/accoun/disclaimer/

## Y camau nesaf

A1.10 Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad.

A1.11 Sylwch y gallwch gofrestru i gael Diweddariadau am ddim drwy’r post yn tynnu’ch sylw at ddogfennau perthnasol a gyhoeddir gan Ofcom. I gael mwy o fanylion, edrychwch ar: http://www.ofcom.org.uk/static/subscribe/select_list.htm

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.12 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl i ymateb i ymgynghoriadau. I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A1.13 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y modd y mae Ofcom yn cynnal ei ymgynghoriadau, ffoniwch ein desg gymorth ymgynghori ar 020 7981 3003 neu anfonwch neges drwy’r e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk . Byddem yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth geisio barn y grwpiau neu’r unigolion hynny, fel busnesau bach neu fathau penodol o ddefnyddwyr preswyl, sy’n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.14 Os hoffech drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol gallwch gysylltu â Vicki Nash, Cyfarwyddwr yr Alban, sef hyrwyddwr ymgynghori Ofcom:

Vicki Nash
Ofcom
Sutherland House
149 St. Vincent Street
Glasgow G2 5NW

Ffôn: 0141 229 7401
Ffacs: 0141 229 7433

E-bost vicki.nash@ofcom.org.uk

## Atodiad 2

# Egwyddorion ymgynghori Ofcom

A2.1 Mae Ofcom wedi cyhoeddi'r saith egwyddor ganlynol y bydd yn eu dilyn ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

### Cyn yr ymgynghoriad

A2.2 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol â phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

### Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.3 Byddwn yn glir ynghylch pwy yr ydym yn ymgynghori â hwy, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.4 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd ag sy'n bosibl i roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu arweiniad byr mewn iaith syml i gyrff llai neu i unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A2.5 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at 10 wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A2.6 Bydd rhywun o fewn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a chyrff sydd â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. 'Hyrwyddwr Ymgynghori' Ofcom hefyd fydd y prif berson y dylid cysylltu â hi i roi barn am y modd yr ydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A2.7 Os na fyddwn yn gallu dilyn un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

### Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.8 Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod pawb sy'n ymddiddori mewn mater sydd dan sylw'n cael gweld barn eraill yn ystod yr ymgynghoriad. Fel arfer, byddem yn cyhoeddi'r holl ymatebion a gawsom ar ein gwefan. Yn ein datganiad, byddwn yn rhoi rhesymau dros ein penderfyniadau ac yn disgrifio sut yr oedd barn y rhai a fu'n gysylltiedig wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hynny.

## Atodiad 3

# Dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad

A3.1 Er mwyn gweithredu'n dryloyw a dilyn arferion rheoleiddiol da, byddwn yn cyhoeddi'r holl ymatebion i ymgynghoriadau'n llawn ar ein gwefan, sef www.ofcom.org.uk.

A3.2 Rydym wedi cynhyrchu dalen ar gyfer cyflwyno ymatebion (gweler isod) a byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech anfon un ohonynt gyda'ch ymateb (mae hon wedi'i chynnwys yn y ffurflen ar-lein ar y we os byddwch yn ymateb fel hyn). Bydd hyn yn ein helpu i brosesu ymatebion yn gyflymach, ac i gadw cyfrinachedd os yw hynny'n briodol.

A3.3 Gellir gwella ansawdd yr ymgynghori drwy gyhoeddi ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i'r unigolion a'r cyrff hynny sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly byddai Ofcom yn annog ymatebwyr i gwblhau eu dalen gyflwyno mewn modd sy'n caniatáu i Ofcom gyhoeddi eu hymatebion wrth iddynt ddod i law, yn hytrach nag aros nes bod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben.

A3.4 Mae'n well o lawer gennym gael ymatebion drwy'r ffurflen ar-lein sydd ar y we sy'n cynnwys y ddalen gyflwyno. Os ydych yn ymateb drwy'r e-bost, y post neu ffacs, gallwch lwytho copi electronig o'r ddalen hon i lawr mewn fformat Word neu RTF oddi ar yr adran 'Ymgynghoriadau' ar ein gwefan yn www.ofcom.org.uk/consult/.

A3.5 Byddwch cystal â rhoi unrhyw rannau o'ch ymateb y credwch y dylid eu cadw'n gyfrinachol mewn atodiad ar wahân i'ch ymateb a nodwch eich rhesymau dros beidio cyhoeddi'r rhan hon o'ch ymateb. Gall hyn gynnwys gwybodaeth fel eich cefndir a'ch profiad personol. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, byddwch cystal â'u rhoi ar eich dalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.

## Dalen cyflwyno ymateb i ymgynghoriad gan Ofcom

### MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad: Ymgynghoriad ar Nation Radio (De Cymru)

At (cyswllt yn Ofcom): Martin Campbell

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu gorff/cyrff):

Cyfeiriad (os na chafwyd ef drwy'r e-bost):

### CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb yr ydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

Dim byd ☐ Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐

Yr ymateb cyfan ☐ Corff ☐

Rhan o'r ymateb ☐ Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau?

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw'ch corff gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb er hynny (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, crynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu gwybodaeth benodol neu'n rhoi modd i'ch adnabod)?

DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y caiff Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon ymateb drwy'r e-bost, caiff Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys neges e-bost ac atodiadau.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych pe baem ond yn cyhoeddi'ch ymateb ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, ticiwch yma. ☐

Enw Llofnod (os darperir copi papur)

**Atodiad 4**

# Cwestiwn yr ymgynghoriad

## Un Cwestiwn

A4.1

*C 1. A ddylid caniatáu i Nation Radio wneud y newidiadau y mae'n eu cynnig i'r orsaf, yn arbennig yng nghyswllt y meini prawf statudol a nodwyd yn y crynodeb? (Adran 106 (1A) (b) ac (ch), Deddf Darlledu 1990 yn ymwneud â newid Fformat).*

**Atodiad 5**

# Cais Town and Country i newid Fformat Nation Radio

| | |
|---|---|
| **Enw'r Orsaf:** | Nation Radio |
| **Enw'r Sawl sy'n Cynnig y Newid mewn Fformat:** | Jason Bryant |
| **Cynigion Amlinellol ar gyfer y Newid(iadau) mewn Fformat:** | I newid ein fformat presennol, sef: |
| | **GORSAF ROC GWAHANOL AR GYFER DE CYMRU SY'N CHWARAE ROC MODERN A ROC CLASUROL, GYDA SESIYNAU WYTHNOSOL SY'N RHOI SYLW I ARTISTIAID LLEOL** |
| | i |
| | **GORSAF CERDDORIAETH NEWYDD AR GYFER DE CYMRU, YN CHWARAE ROC MODERN YN BENNAF, OND HEFYD YN CYNNWYS MATHAU ERAILL O GERDDORIAETH SY'N APELIO AT GYNULLEIDFA DARGED YR ORSAF, SEF POBL RHWNG 15 A 34 OED. BYDD YR ALLBWN YN HANU O DDE CYMRU AC YN CYNNWYS RHOI SYLW I ARTISTIAID LLEOL.** |

**Gall gweithredwyr trwyddedau radio lleol analog wneud cais i Ofcom am gael newid Fformat yr orsaf. Dylid gwneud unrhyw gais gan ddilyn y drefn sydd wedi'i dangos ar y ffurflen hon, a dylai fod yn unol â'r gweithdrefnau y mae Ofcom wedi'u cyhoeddi ar gyfer newidiadau mewn Fformat (ar gael ar ein gwefan).**

**Dan adran 106(1A) Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd*), ni fydd Ofcom ond yn caniatáu'r newid os yw'n fodlon bod *o leiaf* un o'r pedwar maen prawf canlynol wedi'i fodloni:**

*(a)* *na fydd y newid yn newid natur y gwasanaeth yn sylweddol;*

*(b) na fydd y newid yn cyfyngu ar yr amrywiaeth o raglenni bydd ar gael o ran gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth y mae'r gwasanaeth wedi'i drwyddedu i ddarparu ar eu cyfer;*

*(c) y bydd y newid yn ffafriol i gynnal neu i hyrwyddo cystadlu teg ac effeithiol; neu*

*(d) bod tystiolaeth bod galw sylweddol ymysg y bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno am y newid a fyddai'n deillio o'r fformat newydd, neu fod cefnogaeth sylweddol i'r newid hwnnw.*

**Dim ond un o'r pedwar maen prawf hyn y mae angen ei fodloni er mwyn i Ofcom ganiatáu'r newid arfaethedig. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw Ofcom o'r farn bod y newid arfaethedig yn bodloni un neu fwy o'r meini prawf statudol, efallai y bydd rhesymau (yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos) pam na fydd Ofcom yn caniatáu'r newid arfaethedig.**

**Yn ogystal, dylai ymgeiswyr nodi bod adran 106ZA o'r un Ddeddf (fel y'i diwygiwyd*) yn mynnu bod rhaid ymgynghori ynghylch newid arfaethedig *nad yw'n* bodloni'r cyntaf o'r meini prawf hyn (h.y. newid y mae Ofcom o'r farn y *byddai* neu y *gallai* newid natur y gwasanaeth yn sylweddol), os ydyw i'w ystyried ymhellach dan unrhyw un o'r tri maen prawf arall.[#].**

**Os digwydd i Ofcom gael cais am newid Fformat a'i fod yn credu *nad yw* maen prawf (a) wedi'i fodloni, bydd yn gofyn am gadarnhad gan yr ymgeisydd ynghylch a yw'n dymuno parhau â'r cais (ac, os ydyw, a yw'n dymuno newid ei gyflwyniad neu roi un yn ei le o gofio bod angen ei gyhoeddi).**

Cyflwynwch eich cais fel hyn:

**Perthnasedd i adran 106(a)…**

Ni fyddai'r newid arfaethedig yn newid natur y gwasanaeth na'r gynulleidfa darged yn sylweddol. Y bwriad yw amlygu'r hyn sy'n gwneud Nation yn wahanol yn y farchnad yn Ne Cymru er mwyn i ni allu llunio proffil cliriach o'r gynulleidfa 15-34 oed a sicrhau bod yr orsaf yn denu cyfran ddigonol o'r gynulleidfa o fewn yr ardal ddemograffig rydym yn anelu at ei chyrraedd i fod yn ymarferol.

Bydd y fformat newydd yn parhau i apelio at yr un farchnad darged ond bydd hefyd yn galluogi Nation i gystadlu ar lefel mwy cytbwys â BBC Radio 1, sef ei gystadleuydd targed. Adeg dyfarnu'r drwydded ym mis Mai 2007, nododd Pwyllgor Trwyddedu Radio Ofcom " nad yw cynulleidfa darged yr ymgeisydd, sef dynion rhwng 15 a 34 oed, yn cael gwasanaeth digonol gan y gwasanaethau radio masnachol lleol sy'n bodoli ar hyn o bryd". Mae hyn yn fwy perthnasol byth heddiw gan fod BBC Radio 1 yn cyrraedd cynulleidfa fwy ac yn meddu ar gyfran fwy o'r farchnad erbyn heddiw, sef 28% a 12.2%, o'i gymharu â 26% a 12.0% adeg dyfarnu'r drwydded (Real Radio TSA Ch1 2007 yn erbyn Ch3 2009)

Bydd fformat newydd Nation yn apelio at yr un gynulleidfa ddemograffig, sef pobl rhwng 15 a 34 oed, a bydd yn parhau i fod yn unigryw yn y farchnad (nid oes unrhyw orsaf arall wedi ymrwymo i gerddoriaeth newydd neu i gerddoriaeth roc), ond bydd yn fwy hyblyg, sy'n golygu y gall adlewyrchu'r newid cyson yn niddordebau a chwaeth gerddorol y gynulleidfa darged. Bydd Nation yn parhau i roi sylw i artistiaid lleol sy'n dechrau dod i'r amlwg yng Nghymru – nodwedd unigryw a phenodol ymysg gorsafoedd y rhanbarth.

**Perthnasedd i adran 106 (b), (c) a (ch)…**

Nid ydym yn credu bod y cais hwn yn cyfateb i newid sylweddol ac felly, ni fydd yn cyfyngu ar yr amrywiaeth o raglenni sydd ar gael i bobl sy'n byw yn Ne Cymru.

Fel y nodwyd uchod, bydd y fformat newydd yn parhau i wasanaethu'r un farchnad darged o bobl rhwng 15 a 34 oed - y bwlch yn y farchnad a nodwyd gan yr ymgeisydd llwyddiannus a'r Pwyllgor Trwyddedu Radio ym mis Mai 2007. Cadarnhaodd y Pwyllgor Trwyddedu Radio "nad yw'r gynulleidfa darged, sef dynion rhwng 15 a 34 oed, yn cael gwasanaeth digonol gan y gwasanaethau radio masnachol lleol sy'n bodoli ar hyn o bryd".

Mae arnom eisiau gallu cystadlu'n fwy effeithiol â BBC Radio 1. Yn nodiadau dyfarnu trwydded y Pwyllgor Trwyddedu Radio a gyhoeddwyd ym mis Mai 2007, nododd Ofcom fod XFM wedi'i "lunio i apelio'n bennaf at yr un gynulleidfa darged " (â BBC Radio 1), sef pobl rhwng 15 a 34 oed. Mae Nation Radio eisoes wedi datblygu proffil clir o'r gynulleidfa 15 i 34 oed, gyda 62% o'i gyrhaeddiad wythnosol yn y grŵp demograffig hwn yn ogystal â 57% o oriau gwrando'r orsaf. Bydd y newid yn golygu y byddwn yn gallu datblygu ein rhaglenni ar gyfer y gynulleidfa darged o bobl rhwng 15 a 34 oed yn ogystal â darparu canlyniadau ar gyfer hysbysebwyr sydd eisiau cyrraedd y gynulleidfa darged hon yn Ne Cymru.

Bydd Nation Radio yn parhau i chwarae Roc Modern ac i roi sylw i artistiaid lleol sy'n dechrau dod i'r amlwg – nodwedd unigryw ymysg gorsafoedd y rhanbarth, ac un sy'n bwysig i ni. Mae'r ymrwymiadau hyn yn parhau yn ein Fformat diwygiedig.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw orsaf yn canolbwyntio ar y gynulleidfa oedolion 15 i 34 oed yn Ne Cymru. Mae Kiss 101 yn gwasanaethu ochr ddwyreiniol ein hardal darlledu a De Orllewin Lloegr, ond mae'r orsaf hon yn canolbwyntio ar gerddoriaeth dawns a cherddoriaeth RnB seiliedig ar y siartiau. Yn ogystal, nid oes gan Kiss ond 2.2% o gyfran yn y rhanbarth (RAJAR Nation TSA W3 2009 TSA) – sy'n dangos ei ddiffyg dylanwad a pherthnasedd yn Ne Cymru er gwaethaf y ffaith ei bod wedi cael ei sefydlu ers dros ddeng mlynedd. Mae hefyd wedi'i lleoli yn Lloegr ac mae llawer o allbwn yr orsaf wedi'i rwydweithio o Lundain.

Fel y gwelir o'r fformatau isod, nid oes gan unrhyw orsaf sy'n bodoli yn Ne Cymru ar hyn o bryd (nac mewn unrhyw ardal yng Ngorllewin Cymru lle rydym yn awyddus i ddatblygu sylfaen ddarlledu i'r graddau y gallwn dan amodau'r drwydded fel yr hysbysebwyd) Fformat sydd wedi ymrwymo i Gerddoriaeth Newydd, nac i gerddoriaeth Roc nac i'r gynulleidfa darged o bobl rhwng 15 a 34 oed. Mae'r holl wasanaethau lleol presennol sydd wedi'u lleoli yn Ne Cymru yn orsafoedd Cerddoriaeth Eang sy'n gwasanaethu cynulleidfaoedd eang. Nation fyddai'r unig orsaf a fyddai'n canolbwyntio ar wasanaethu cynulleidfa benodol iawn dan 35 oed ar draws De Cymru ac sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo cerddoriaeth roc a cherddoriaeth newydd.

**Nation (diwygiedig)**

**GORSAF CERDDORIAETH NEWYDD AR GYFER DE CYMRU, YN CHWARAE ROC MODERN YN BENNAF, OND HEFYD YN CYNNWYS MATHAU ERAILL O**

GERDDORIAETH SY'N APELIO AT GYNULLEIDFA DARGED YR ORSAF, SEF POBL RHWNG 15 A 34 OED. BYDD YR ALLBWN YN HANU O DDE CYMRU AC YN CYNNWYS RHOI SYLW I ARTISTIAID LLEOL.

**Bay Radio**

GORSAF GERDDORIAETH A SGWRSIO LLEOL AR GYFER ARDAL ABERTAWE, YN CYNNWYS NEWYDDION 24 AWR, GWYBODAETH A SYLWADAU WEDI'I HANELU'N BENNAF AT Y GRŴP OEDRAN 35+, GYDA CHYMYSGFA O GERDDORIAETH HAWDD GWRANDO ARNI A CHERDDORIAETH AUR, SY'N ADLEWYRCHU DIWYLLIANT AC IAITH CYMRU YN RHEOLAIDD

**Real**

GORSAF SY'N RHOI GWASANAETH LLAWN O GERDDORIAETH GYFOES I OEDOLION YN NE CYMRU, WEDI'I HANELU'N BENNAF AT BOBL RHWNG 25 A 54 OED, AC SY'N CREDU BOD SGWRS, GWYBODAETH RANBARTHOL A RHYNGWEITHIO Â GWRANDAWYR YN BWYSIG, YN OGYSTAL Â DARPARU NEWYDDION 24 AWR

**Wave**

GORSAF GERDDORIAETH A GWYBODAETH -- CERDDORIAETH Y SIARTIAU A CHERDDORIAETH GYFOES YN BENNAF OND GALL HEFYD GYNNWYS TRACIAU HŶN -- AR GYFER POBL DAN 40 OED YN ARDAL ABERTAWE, SY'N RHOI SYLW I ARTISTIAID CYMREIG YN WYTHNOSOL O LEIAF

**Red Dragon**

GORSAF Â GOGWYDD LLEOL SY'N CHWARAE CERDDORIAETH GYFOES A CHERDDORIAETH Y SIARTIAU YN OGYSTAL Â RHOI GWYBODAETH AR GYFER POBL DAN 44 OED YN ARDAL CAERDYDD A CHASNEWYDD

**Bridge FM**

GORSAF GERDDORIAETH EANG A GWYBODAETH SY'N CANOLBWYNTIO AR YR ARDAL LEOL AR GYFER POBL RHWNG 25 A 54 OED YN ARDAL PEN-Y-BONT AR OGWR SYDD WEDI YMRWYMO I HYRWYDDO'R IAITH GYMRAEG

**Gold**

GORSAF SY'N CHWARAE CANEUON POP POBLOGAIDD CLASUROL, GYDA GWYBODAETH LEOL, WEDI'I HANELU'N BENNAF AT BOBL RHWNG 35 A 54 OED YN ARDAL CAERDYDD A CHASNEWYDD

**Sain Abertawe**

GORSAF SY'N CHWARAE CANEUON POP POBLOGAIDD CLASUROL YNGHYD Â RHOI GWYBODAETH AR GYFER POBL DROS 30 OED YN ARDAL ABERTAWE, SY'N CANOLBWYNTIO'N GRYF AR FATERION LLEOL, AC SY'N CYNNIG O LEIAF 12 AWR YR WYTHNOS (DIM DROS NOS) O RAGLENNI YN YR IAITH GYMRAEG YN OGYSTAL Â BWLETINAU GYDA'R NOS YN RHEOLAIDD YN YSTOD YR WYTHNOS YN YR IAITH GYMRAEG (PENAWDAU YN SAESNEG)

**Ardaloedd sy'n Datblygu yng Ngorllewin Cymru**

**Radio Sir Gâr**

**GWASANAETH NEWYDDION, CERDDORIAETH EANG A GWYBODAETH LEOL AR GYFER SIR GAERFYRDDIN, SY'N CYNNWYS RHAGLENNI ADNABYDDADWY RHEOLAIDD YN YR IAITH GYMRAEG**

**Radio Sir Benfro**

**GORSAF GERDDORIAETH, NEWYDDION A GWYBODAETH Â GOGWYDD LLEOL AR GYFER OEDOLION YN YR ARDAL SY'N CHWARAE CANEUON POBLOGAIDD O'R PEDWAR DEGAWD DIWETHAF, GYDA RHAGLEN YN YR IAITH GYMRAEG BOB WYTHNOS**

**Unrhyw wybodaeth a/neu dystiolaeth ychwanegol o blaid y newid(iadau) arfaethedig**

Pan ddyfarnwyd y drwydded i'r orsaf yn 2007 (fel XFM South Wales Limited) dangoswyd yn glir mai'r bwlch yn y farchnad oedd cynulleidfa BBC Radio 1. Felly mae o hyd. Yn wir, fel sy'n amlwg uchod, mae cyfran y gynulleidfa a'r farchnad y gellir ei phriodoli i Radio 1 wedi codi yn y ddwy flynedd ddiwethaf, wrth i'r gorsafoedd masnachol sy'n bodoli ar hyn o bryd ymladd dros y cynulleidfaoedd oedolion eang yn Ne Cymru, gan ei gwneud yn hawdd i'r BBC ddenu pobl rhwng 15 a 34 oed.
-{}-
Fel y'i dyfarnwyd yn wreiddiol, bwriadwyd y drwydded hon i fod yn rhan o strategaeth wedi'i brandio genedlaethol ar gyfer XFM. Nawr, dan berchnogaeth annibynnol Town and Country Broadcasting Ltd, mae'n rhan o fusnes radio masnachol Cymreig ar wahân pwrpasol. Mae Town and Country Broadcasting Ltd eisoes wedi buddsoddi swm sylweddol o arian i achub yr orsaf rhag cael ei chau, sef yr hyn a fyddai wedi digwydd dan y perchennog blaenorol. Rydym wedi gadael i'r orsaf ddatblygu am flwyddyn ac rydym wedi adolygu cynulleidfa a pherfformiad ariannol Nation. Mae wedi perfformio'n rhesymol o ran cynulleidfa yn y 12 mis diwethaf ac mae natur yr orsaf wedi'i diffinio'n glir gan y grŵp demograffig 15-34 oed. Fodd bynnag, nid yw maint y gynulleidfa'n ddigon i gynnal yr orsaf ac, fel cwmni bychan wedi'i leoli yng Nghymru, bydd yr hyblygrwydd rydym yn gofyn amdano yn golygu ein bod yn gallu buddsoddi yn Nation fel gorsaf wedi'i diffinio'n glir fel gorsaf Gymreig, wedi'i lleoli yng Nghymru, sy'n anelu at wasanaethu pobl rhwng 15 a 34 oed. Hoffai Nation gystadlu'n fwy effeithiol â BBC Radio 1. Byddai'r newid yn y fformat yn hwyluso hyn a hefyd yn ein galluogi i gryfhau'r sector radio masnachol cyfan yn Ne Cymru gyda chynnig cerddoriaeth newydd cryf sydd â sail ranbarthol.

Fel y gwelir isod, mae gennym ffordd bell i fynd cyn y byddwn yn llwyddo i ddal BBC Radio 1, sy'n parhau i ragori ar ei chyrhaeddiad yn y DU, ei horiau cyfartalog a'i chyfran yn Ne Cymru.

| | De Cymru | DU |
|---|---|---|
| Cyrhaeddiad | 28% | 22% |
| Oriau Cyf yn y Du | 9.3 | 9.0 |
| Cyfran | 12.7 | 9.9% |

Ffynhonnell: RAJAR Nation TSA W3 2009

Fel y dangosir uchod, mae BBC Radio 1 yn parhau i ragori dros 25% ar ei pherfformiad DU yn Ne Cymru, sy’n pwysleisio sut mae'r ddarpariaeth fasnachol bresennol yn methu apelio at y gynulleidfa 15-34 oed yn Ne Cymru. Mae’r nifer sy’n gwrando ar BBC Radio 1 yn Ne Cymru wedi codi 63,000 ac mae cyfran yr orsaf yn y farchnad wedi codi o 12 i 12.2 yn y ddwy flynedd ers dyfarnu'r drwydded (RAJAR; Real Radio TSA Ch1 2007 yn erbyn Ch3 2009) O fewn is-TSA Red Dragon (Caerdydd a Chasnewydd) a The Wave (Abertawe) mae’r cynnydd hwnnw'n fwy amlwg byth wrth i BBC Radio 1 gynyddu ei chyfran ym marchnad Caerdydd a Chasnewydd o 11.7% i 13.2%, a'i chyfran ym marchnad Abertawe o 12.6% i 12.8% ers 2007. Nid yw cyrhaeddiad Nation ond yn 5% a'i chyfran yn y farchnad ond yn 0.8% yn TSA Red Dragon, ac nid oes ffigyrau ar gael ar gyfer TSA Abertawe.

Mae fformat Radio Gwlad eisoes yn troi o gwmpas y gerddoriaeth a chwaraeir gennym – dyma sy’n bwysig i’n cynulleidfa darged o bobl 15-34 oed. Fel yr unig orsaf cerddoriaeth newydd yn Ne Cymru, bydd Nation yn cadw elfen roc modern gref (y gwyddom sy’n boblogaidd) ond bydd hefyd yn chwarae mathau eraill o gerddoriaeth sy’n apelio at y grŵp demograffig 15-34 oed. Bydd hyn yn galluogi’r orsaf i gystadlu’n fwy effeithiol â BBC Radio 1.

Bydd Nation yn parhau i fod yn ddewis gwirioneddol wahanol i'r gwasanaethau lleol yng Nghaerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Bydd hefyd yn hanfodol wahanol i’r gwasanaeth rhanbarthol arall, sef Real Radio, sy'n chwarae hen ganeuon gan mwyaf gyda chyfran gyfyngedig o gerddoriaeth newydd. Mae llawer o sgwrsio hefyd ar orsaf Real – mae elfen sgwrsio Nation eisoes cyn lleied â phosibl a byddai'r nodwedd hon yn parhau.

Bydd Nation, fel y mae ar hyn o bryd, yn parhau i fod yn fwy mentrus na fformatau “Cerddoriaeth Eang” Red Dragon, The Wave, Bridge FM, Radio Sir Benfro a Radio Sir Gâr. Yn wir, trwy ddadansoddi’r gynulleidfa, gwelir fod yr holl orsafoedd masnachol sy’n targedu De Cymru yn orsafoedd cerddoriaeth eang/cerddoriaeth aur, sy'n canolbwyntio ar y tir canol, ac yn chwarae ystod eang o gerddoriaeth siartiau prif ffrwd a hen ffefrynnau ac yn darparu ar gyfer cynulleidfa eang iawn, o 15 i 64 oed.

Ar hyn o bryd, mae gan y gorsafoedd hyn gyfran fawr o wrandawyr 35+ oed a dim ond Nation a fyddai'n gwasanaethu cynulleidfa iau ddiffiniedig, gydag ymrwymiad amlwg i Gerddoriaeth Newydd a cherddoriaeth Roc.

**Rhanbarthol**

Mae 64% o gyrhaeddiad wythnosol Real Radio yn 35+ oed a gellir priodoli 76% o oriau gwrando'r orsaf i’r grŵp oedran hwn.

**Caerdydd**

Mae 46% o gyrhaeddiad wythnosol Red Dragon yn 35+ oed a gellir priodoli 43.6% o oriau gwrando'r orsaf i’r grŵp oedran hwn.

Mae 71% o gyrhaeddiad wythnosol Gold yn 35+ oed a gellir priodoli 96% o oriau gwrando'r orsaf i’r grŵp oedran hwn.

**Pen-y-bont ar Ogwr**

Mae 63% o gyrhaeddiad wythnosol Bridge FM yn 35+ oed a gellir priodoli 67% o oriau gwrando'r orsaf i’r grŵp oedran hwn.

**Abertawe**

Mae 52% o gyrhaeddiad wythnosol The Wave yn 35+ oed a gellir priodoli 58% o oriau gwrando'r orsaf i'r grŵp oedran hwn.

Mae 72% o gyrhaeddiad wythnosol Bay Radio yn 35+ oed a gellir priodoli 76% o oriau gwrando'r orsaf i'r grŵp oedran hwn.

Mae 78% o gyrhaeddiad wythnosol Sain Abertawe yn 35+ oed a gellir priodoli 91% o oriau gwrando'r orsaf i'r grŵp oedran hwn.

Yn olaf, mae'n bwysig nodi fod Town and Country Broadcasting, perchnogion Nation Radio, hefyd yn gweithredu'r gwasanaethau canlynol yn Ne Cymru:

*Bay Radio, Bridge FM, Radio Sir Gâr a Radio Sir Benfro.*

Rhyngddynt, mae'r gwasanaethau hyn yn darlledu yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd yn Ne a Gorllewin Cymru lle mae radio rhanbarthol ar waith. Felly, mae Town and Country Planning mewn sefyllfa dda i sicrhau fod Nation Radio yn cyfannu'r gwasanaethau Radio Lleol Annibynnol sy'n bodoli eisoes yn Ne Cymru.

*Nodiadau*
* Fel y'i diwygiwyd gan Adrannau 312 a 313 Deddf Cyfathrebu 2003
# Gall Ofcom roi sêl bendith i newid dan unrhyw feini prawf o (b) i (ch) heb ymgynghori, neu yn dilyn ymgynghoriad sy'n para llai na 28 diwrnod, os yw Ofcom o'r farn y byddai cynnal ymgynghoriad o gwbl, neu am 28 diwrnod neu fwy, yn arwain at oedi a fyddai'n debygol o niweidio buddiannau deilydd y drwydded. Gall Ofcom hefyd dynnu unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gyflwynir gan y deilydd trwydded at ddibenion ymgynghori.

**Fersiwn 4 – diwygiwyd Mawrth 2007**

## Atodiad 6

# FFORMAT GORSAF RADIO MASNACHOL

## NATION RADIO

### Natur y Gwasanaeth

**GORSAF ROC GWAHANOL AR GYFER DE CYMRU SY'N CHWARAE ROC MODERN A CHLASUROL, GYDA SESIYNAU WYTHNOSOL SY'N RHOI SYLW I ARTISTIAID LLEOL**

| | |
|---|---|
| **Ardal sydd wedi'i thrwyddedu** | **De Cymru (fel y mae yn hysbyseb Ofcom)** |
| **Amlder** | **106.8 a 107.3 MHz** |
| **Hyd y gwasanaeth** | **24 awr** |
| **Oriau a wneir yn lleol** | **O leiaf 10 awr y diwrnod yn ystod y dydd yn yr wythnos (rhaid i hyn gynnwys brecwast)**<br>**O leiaf 4 awr yn ystod y dydd ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.** |
| **Bwletinau Newyddion** | **Bob awr o leiaf yn ystod y dydd yn yr wythnos a rhwng 0800 a 1400 ar benwythnosau** |

**Trefniadau ar y cyd (os yw'n berthnasol)**

| | |
|---|---|
| **Cydleoli** | **Dim Trefniadau** |
| **Rhannu rhaglenni** | **Dim Trefniadau** |

**Diffiniadau**

| | |
|---|---|
| Sgwrsio / Cerddoriaeth | Nid yw'n cynnwys hysbysebu, hyrwyddiadau ar gyfer yr orsaf neu raglenni na chredydau i noddwyr |
| Oriau Brig | Amser brecwast ac amser gyrru yn ystod yr wythnos, ac amser brecwast hwyr ar benwythnosau |
| Yn ystod y Dydd | 0600 i 1900 yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau |
| Wedi'u gwneud yn lleol | Cynhyrchu a chyflwyno o'r tu mewn i'r ardal drwyddedig |

**Poblogaeth y Dalgylch Mesuredig : 873,636** **Rhif trwydded : AL 327-1**

**Nodiadau**

Dylid darllen y Fformat hwn ar y cyd â Chanllawiau 'Bod yn Lleol' cyhoeddedig Ofcom fel y'u diweddarwyd ynghyd â thestun ychwanegol o "Dyfodol Radio : Y Cam Nesaf" (2007)

**CYTUNWYD**
**CHWEF 2009**

## Atodiad 7

# Gorsafoedd radio masnachol a chymunedol sydd ar waith yn Ne Cymru

### Gorsafoedd Masnachol

- Bay Radio (Bae Abertawe – Rhai dros 35)

  http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/formats/al306-1.doc

- Bridge FM (Pen-y-bont ar Ogwr – Cerddoriaeth eang)

  http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/formats/al257-1.doc

- Heart (Caerfaddon a Bryste – Cerddoriaeth Gyfoes a Cherddoriaeth Siartiau ar gyfer rhai dan 44)

  http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/formats/al016-2.doc

- Gold (Caerfaddon a Bryste – Caneuon Pop Clasurol Poblogaidd ar gyfer rhai rhwng 35 a 54 oed) (AM)

  http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/formats/al015-2.doc

- Original (Bryste - Gorsaf wahanol ar gyfer oedolion)

  http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/formats/al319-1.doc

- Red Dragon FM (Caerdydd a Chasnewydd – Cerddoriaeth Siartiau a Cherddoriaeth Gyfoes ar gyfer rhai dan 44)

  http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/formats/al020-2.doc

- Gold (Caerdydd a Chasnewydd – Caneuon Pop Clasurol Poblogaidd ar gyfer rhai rhwng 35 a 54 oed) (AM)

  http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/formats/al019-2.doc

- Radio Sir Gâr (Cerddoriaeth Eang)

  http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/formats/al289-1.doc

- Kiss 101 (Aber Hafren – Caneuon Poblogaidd Rhythmig)

  http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/formats/al167-1.doc

- Real Radio (De Cymru – Gwasanaeth cerddoriaeth gyfoes llawn i oedolion)

  http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/formats/al261-1.doc

- 96.4 The Wave (Ardal Abertawe – Cerddoriaeth siart yn bennaf ar gyfer rhai dan 40)

  http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/formats/al091-2.doc

- Sain Abertawe (Ardal Abertawe – pop clasurol)

  http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/formats/al090-2.doc

## Gorsafoedd Cymunedol

- GTFM Pontypridd

  http://www.gtfm.co.uk

- Afan FM, Port Talbot

  http://www.afanfm.co.uk

- Radio Tircoed, Abertawe

  http://www.radiotircoed.com